Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Bryn Hyfryd
# Rhodfa Ruskin
# Tŷ-du
# Casnewydd
# NP10 0AB

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Bryn Hyfryd

Mae Ysgol Gynradd Bryn Hyfryd yn Nhŷ-du, ger Casnewydd. Mae 272 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ar y gofrestr, gan gynnwys 31 o ddisgyblion sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan amser.

Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw 2% sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan 10% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol (21%). Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiadau o angen addysgol arbennig.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol ym mis Mawrth 2013. Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd ym mis Ionawr 2016.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae gan y pennaeth weledigaeth gref ar gyfer yr ysgol, sy’n canolbwyntio’n dda ar feithrin disgyblion fel eu bod yn mwynhau dysgu, ac yn llwyddo ynddo. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion ac mae wedi creu ethos tîm cryf ymhlith uwch arweinwyr, llywodraethwyr a staff. O ganlyniad, ceir awyrgylch pwrpasol ar draws yr ysgol lle mae staff yn canolbwyntio’n effeithiol ar wella addysgu a dysgu.

Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy’n cymell ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Mae staff wedi ymgorffori pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru yn eu cynllunio. Maent wedi addasu’r testunau a’r themâu y maent yn eu cyflwyno i sicrhau eu bod yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu mewn cyd-destunau bywyd go iawn. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio’n dda ar eu dysgu ac yn canolbwyntio’n effeithiol ar dasgau a gweithgareddau. Yn benodol, mae gan ddisgyblion hŷn agwedd aeddfed tuag at ddysgu. Mae ansawdd yr addysgu’n dda ac mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn. Mae’r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar wella lles disgyblion, ac o ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn mynd i’r ysgol yn rheolaidd ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo’n ddiogel a hapus yn amgylchedd yr ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Addasu tasgau a gweithgareddau yn gyson i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr, a sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn dal ati i ganolbwyntio ar eu dysgu

A2 Sicrhau bod yr holl brofiadau dysgu yn y cyfnod sylfaen yn adlewyrchu ethos ac egwyddorion y cyfnod dysgu hwn

A3 Cryfhau cyfleoedd i athrawon rannu eu harbenigedd ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith o ran paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru. Nid yw’r ysgol yn rhan o’r rhaglen ysgolion arloesi, ond mae staff wedi gweithio’n llwyddiannus i ddatblygu profiadau dysgu cyffrous. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol, yn arbennig ymglymiad disgyblion yn y gwaith hwn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau a dealltwriaeth sy'n debyg i'r lefel sy'n ddisgwyliedig o'u hoedran, neu'n uwch. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ei gilydd. Mae medrau siarad bron pob un o'r disgyblion yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn rhoi esboniadau clir am sut mae cymeriadau'n teimlo wrth ail-ddweud stori Jac a'r Goeden Ffa. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n effeithiol ac yn siarad yn huawdl. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn esbonio'r rhesymau y tu ôl i'r daeargryn diweddar yn Abertawe gan ddefnyddio geirfa ddatblygedig ac aeddfed.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd cryf o ran darllen. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn dda ac yn dangos dealltwriaeth dda o destunau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i'w helpu i ymchwilio i wybodaeth, er enghraifft defnyddio chwilotwr y rhyngrwyd i gael gwybod am dduwiau Groegaidd. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn darllen yn eang o ran pleser ac yn mwynhau amrywiaeth o awduron, gan gynnwys Philip Pullman a Terry Pratchett.

Mae disgyblion iau yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio eu gwybodaeth ffonig i ysgrifennu testunau syml yn llwyddiannus, er enghraifft pan fyddant yn creu posteri er mwyn chwilio am y blaidd mawr drwg. Ym Mlwyddyn 1, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol at ystod o ddibenion yn eu gwersi llythrennedd ac ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu ceisiadau am swyddi yn y gwasanaeth tân a llythyrau i ddiolch i swyddog cyswllt yr heddlu lleol am ymweld â'r ysgol. Defnyddiant atalnodi sylfaenol yn dda mewn brawddegau, fel atalnodau llawn a phriflythrennau. Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu i safon dda mewn ystod eang o *genres*. Maent yn strwythuro eu hysgrifennu'n effeithiol yn unol â'r diben a'r gynulleidfa. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ysgrifennu'n berswadiol i annog pobl i ddod i Gymru ac mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ysgrifennu adroddiadau diddorol ar fywyd yn yr Hen Aifft. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae medrau sillafu a llawysgrifen disgyblion yn dda. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn defnyddio ystod eang o atalnodi i helpu strwythuro eu gwaith ysgrifenedig. Er enghraifft, defnyddiant gromfachau'n effeithiol i ychwanegu rhagor o fanylion o fewn testun, a defnyddiant gomas yn gywir i wahanu eitemau o fewn eu brawddegau. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ysgrifennu i'r un safon dda yn eu gwaith gwyddoniaeth a'u gwaith testun ag y gwnânt yn eu gwaith Saesneg.

Ar draws yr ysgol, mae medrau Cymraeg disgyblion yn gryf. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ac yn gallu ysgrifennu ymadroddion a geiriau Cymraeg syml. Er enghraifft, gallant ddisgrifio'r tywydd a dweud ble maent yn byw. Mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu'n effeithiol ar y medrau hyn wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn darllen testunau Cymraeg ar goedd yn dda a hyderus, gan ynganu geiriau ac ymadroddion yn gywir.

Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn dda. Er enghraifft, dywedant beth maent yn ei hoffi am yr ysgol, gan ymestyn eu hatebion trwy ychwanegu gwybodaeth neu ddefnyddio cysylltair i esbonio eu dewisiadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau rhif cryf. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn defnyddio'r medrau hyn yn dda ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn dehongli data o bictogramau ac yn mesur a chymharu camau a lled llaw yn eu gwaith testun. Mae medrau rhifedd disgyblion yn datblygu'n dda yn eu gwersi mathemateg wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn darganfod ffracsiynau rhifau ac yn tynnu symiau o arian yn gywir i ddarganfod y newid sydd ei angen wrth ganfod cost bwyd ar fwydlenni. Mae disgyblion hŷn yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn ystod eang o gyd-destunau bywyd go iawn. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cyfrifo costau gwyliau i Awstralia, gan gynnwys hediadau, llogi car a chostau gwesty ac yn newid arian o ddoleri Awstralia i bunnoedd yn gywir.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) effeithiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer ohonynt yn defnyddio cyfrifiaduron yn dda, er enghraifft wrth ddilyn cyfarwyddiadau'n llwyddiannus i adeiladu cerbyd ar y sgrin. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau'n bwrpasol ac yn annibynnol i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn defnyddio mapiau electronig i ddod o hyd i gyflenwyr bwyd lleol ac mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn llunio taenlenni gyda manylion am wahanol gaeau pêl-droed.

Mae bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyrraedd y lefelau sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran erbyn iddynt adael yr ysgol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol. Maent yn gwybod ble i droi os bydd angen cymorth arnynt, ac maent yn hyderus fod staff yn gwrando ac yn delio'n briodol ag unrhyw ofidiau a phryderon sydd ganddynt.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda ar eu dysgu ac yn canolbwyntio'n effeithiol ar dasgau a gweithgareddau. Mae gan ddisgyblion hŷn yn arbennig agwedd aeddfed tuag at ddysgu. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatrys problem rhesymu rhifiadol am berimedr cae rygbi. Maent yn cynnal eu diddordeb yn y dasg datrys problemau ac yn gofyn cwestiynau perthnasol am y gweithgaredd i aelodau o'u grŵp. Dangosant bleser diffuant mewn dysgu. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, nid yw rhai disgyblion yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cynnal ffocws digonol ar dasgau, ac nid ydynt yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, caiff disgyblion gyfleoedd da i gael dweud eu dweud ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu, a sut. Er enghraifft, mae disgyblion yn gosod eu targedau dysgu eu hunain ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae disgyblion Blwyddyn 3 yn glir iawn ynglŷn â diben y targedau hyn ac yn deall sut maent yn eu helpu i wella'u gwaith. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn cymryd rhan weithredol mewn cynllunio'r cwricwlwm. Er enghraifft, maent wedi cynllunio gweithgareddau ar gyfer eu testun

Croeso i Gymru sy'n cyd-fynd â'r meysydd dysgu a phrofiad yn y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r gweithgareddau a ddewisir gan ddisgyblion yn feddylgar a pherthnasol ac yn dangos dealltwriaeth aeddfed o ofynion pob maes dysgu.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gref o bwysigrwydd ymarfer corff a bwyta'n iach. Mae bron pob un ohonynt yn mwynhau addysg gorfforol a sesiynau gemau rheolaidd ac mae llawer ohonynt yn mynychu gweithgareddau corfforol allgyrsiol, fel dawnsio gwerin Cymreig a phêl-droed. Maent yn bwyta byrbrydau iach ac yn yfed dŵr yn rheolaidd yn ystod y dydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o ystod addas o strategaethau i'w helpu i aros yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, maent yn gwybod na ddylent ddatgelu gwybodaeth bersonol nac ymuno mewn gemau ar-lein â phobl nad ydynt yn eu hadnabod.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod amser egwyl. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrtais ac yn dangos parch at ei gilydd ac at oedolion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau bywyd ysgol ac yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd. Mae lefelau presenoldeb yn dda iawn. Mae'r ysgol wedi bod yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion a benodwyd i fod yn gyfryngwyr cyfoedion yn cynorthwyo disgyblion amser chwarae trwy eu hannog i ymuno â gemau a gweithgareddau. Mae aelodau o'r Criw Cymraeg yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn dda, er enghraifft trwy rannu geiriau ac ymadroddion yr wythnos a chynllunio digwyddiadau a gweithgareddau yn ystod wythnos Gymraeg yn barod ar gyfer Eisteddfod yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'u hawliau. Mae uwch lysgenhadon yr ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol yn dda, er enghraifft trwy rannu gwerth yr wythnos mewn gwasanaethau ysgol gyfan. Mae disgyblion yn dangos trwy eu trafodaethau eu bod yn deall sut gall gwerthoedd fel penderfyniad eu helpu mewn gweithgareddau yn yr ysgol a'r cartref. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth addas o sut mae pobl yn byw mewn gwledydd a diwylliannau eraill. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn gohebu'n rheolaidd â phlant o ysgol yn Wganda. Maent yn deall yr angen i helpu'r rheiny sy'n llai ffodus na nhw eu hunain, er enghraifft trwy godi arian i helpu'r ysgol yn Wganda i brynu ffenestri newydd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion a'u cymell yn dda. Mae cynllunio'r cwricwlwm yn gryfder yn yr ysgol. Mae staff wedi ymgorffori pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru yn eu cynllunio yn ofalus. Maent wedi addasu'r testunau a'r themâu y maent yn eu cyflwyno i sicrhau eu bod yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Mae athrawon yn defnyddio dull hyblyg o gynllunio'r cwricwlwm, er enghraifft addasu cynlluniau i ystyried digwyddiadau sy'n berthnasol i'r disgyblion, fel y daeargryn diweddar yn ardal Abertawe. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dechrau testunau â gweithgareddau cyffrous y maent yn eu cynllunio i ennyn diddordeb a brwdfrydedd ymhlith disgyblion. Er enghraifft, dechreuodd athrawon destun diweddar trwy efelychu'r hyn sy'n digwydd pan fydd pobl yn teithio trwy faes awyr ac yn ystod hediad ar awyren. Mae athrawon wedi dechrau cynnwys disgyblion wrth

gynllunio testunau yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi cynllunio ystod o weithgareddau ar gyfer eu testun Croeso i Gymru.

Ceir ysbryd tîm effeithiol yn yr ysgol, ac mae staff yn cydweithio'n dda i rannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth er lles y disgyblion. Er enghraifft, darparodd cogydd yr ysgol recordiad fideo ohoni hi ei hun yn siarad am fuddion defnyddio cynnyrch lleol yng nghegin yr ysgol yn symbyliad ar gyfer gwers ddyniaethau. O ganlyniad i ddarpariaeth greadigol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol lefelau uchel o gymhelliant a brwdfrydedd ar gyfer dysgu. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol yn eu gwaith testun a'u gwaith gwyddoniaeth. Mae darpariaeth yr ysgol i ddisgyblion ddysgu Cymraeg ac am fywyd yng Nghymru yn dda.

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae athrawon yn defnyddio ystod addas o strategaethau addysgu, gan gynnwys cyfleoedd i ddisgyblion weithio fel dosbarth cyfan ac mewn grwpiau bach a pharau. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn addasu gwaith yn dda i fodloni anghenion disgyblion â gwahanol alluoedd ac maent yn cysylltu dysgu newydd â'r hyn y mae disgyblion yn ei wybod eisoes, yn enwedig mewn mathemateg. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws pob maes dysgu, ac mae rhai adegau pan fydd athrawon yn cynllunio'n amhriodol i bob disgybl gwblhau'r un gweithgareddau. Pan fydd hyn yn digwydd, nid yw disgyblion sy'n fwy abl neu'r rhai sy'n gorffen tasgau'n gyflym yn cael digon o her, maent yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio ac nid ydynt yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae bron pob un o'r cynorthwywyr addysgu yn gweithio'n effeithiol gyda grwpiau a disgyblion unigol ac yn cael effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wna disgyblion. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda grwpiau o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn holi disgyblion yn dda i herio ac ymestyn eu syniadau. Er enghraifft, mewn sesiynau darllen dan arweiniad, mae staff yn defnyddio cwestiynau'n effeithiol i ddatblygu medrau darllen a deall disgyblion.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth pwrpasol i ddisgyblion i'w helpu i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Maent yn darparu amcanion clir ar gyfer dysgu disgyblion a meini prawf llwyddiant defnyddiol y mae disgyblion hŷn yn asesu eu dysgu eu hunain a dysgu disgyblion eraill yn eu herbyn.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn y cyfnod sylfaen wedi datblygu ardaloedd yn eu hystafelloedd dosbarth ac ardaloedd allanol sy'n darparu ystod briodol o brofiadau dysgu ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, mae ardal y blanhigfa y tu allan a chaffi Blwyddyn 2 yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu sut i dyfu planhigion a defnyddio arian mewn cyd-destunau pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws y cyfnod sylfaen cyfan. Er enghraifft, ar adegau, mae disgyblion yn gweithio'n rhy hir mewn grwpiau mawr neu fel dosbarth cyfan, a phan fydd hyn yn digwydd, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd mewn dysgu ag y gallent.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion gymryd rhan mewn ymweliadau ysgol sy'n cefnogi'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys taith breswyl ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 6 ac ymweliad â'r acwariwm yn Weston-super-Mare ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 1.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn olrhain a monitro cynnydd disgyblion mewn dysgu a lles yn dda iawn. Mae uwch arweinwyr ac athrawon yn monitro cynnydd pob grŵp o ddysgwyr, gan gynnwys disgyblion sy'n fwy abl a'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn defnyddio system olrhain yr ysgol yn dda i osod targedau dyheadol ar gyfer disgyblion o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6. Mae staff yn adolygu'r targedau hyn bob tymor a phan fydd cynnydd islaw'r disgwyl, mae athrawon yn nodi disgyblion a allai elwa ar ymyrraeth bellach. Mae'r ysgol yn cynllunio a chyflwyno cymorth gwerthfawr ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, er enghraifft trwy raglenni ffoneg a dal i fyny â rhifedd. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion sy'n cael cymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Mae'r pennaeth yn rhoi pwyslais cryf ar wella lles disgyblion, ac yn rhoi ystod o strategaethau effeithiol ar waith i gefnogi hyn. Er enghraifft, mae athrawon yn defnyddio offeryn arolwg disgyblion i helpu monitro medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion a nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i ddatblygu'r medrau hyn. Mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf ar gyfer y disgyblion hyn, er enghraifft trwy'r sesiynau sgwad amser cinio lle mae cynorthwywyr addysgu yn helpu disgyblion i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwarae strwythuredig, fel gweithgareddau adeiladu a chwarae â blociau. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar y disgyblion sy'n mynychu. Er enghraifft, mae eu hymddygiad wedi gwella wrth i ddisgyblion ddysgu rheoli eu hemosiynau'n fwy effeithiol. Gwna pob un o'r staff ddefnydd pwrpasol o raglen ar-lein i wobrwyo disgyblion sy'n dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae gan yr ysgol berthynas fuddiol â rhieni, ac mae'n rhoi cymorth gwerthfawr iddynt. Er enghraifft, mae staff yn cyflwyno gweithdai sy'n helpu rhieni i ddeall dull yr ysgol o addysgu darllen a rhifedd. Mae athrawon ar draws yr ysgol yn gosod targedau ar gyfer disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a datblygiad cymdeithasol. Maent yn rhannu'r rhain ac yn cytuno arnynt gyda rhieni i'w helpu i wybod y camau nesaf yn nysgu eu plant.

Mae'r ysgol yn rhoi llawer o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldeb, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn rolau arwain sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd ysgol. Mae gan aelodau o'r pwyllgor eco ran weithredol yn gwneud yn siŵr fod yr ysgol yn ailgylchu ei gwastraff yn briodol. Mae staff yn cynorthwyo'r grwpiau disgyblion yn dda, er enghraifft trwy helpu aelodau o'r cyngor ysgol i baratoi cyflwyniad yn ystod gwasanaeth ysgol gyfan. Yn ddiweddar, mae staff wedi gwella cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan yn eu dysgu eu hunain, er enghraifft trwy osod eu targedau eu hunain ar gyfer gwella, a chynllunio cynnwys eu testunau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu.

Mae athrawon yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol goddefgarwch a pharch trwy gynnwys disgyblion mewn mentrau fel wythnos gwrthfwlio a Mis Hanes Pobl Dduon. Mae'r mentrau hyn yn cefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda. Caiff disgyblion gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu eu dealltwriaeth ymhellach trwy'r cwricwlwm: er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn astudio bywyd a gwaith Martin Luther King.

Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn dda, er enghraifft trwy wasanaethau rheolaidd i'r ysgol gyfan. Rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel. Er enghraifft, mae swyddog cyswllt yr heddlu yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i drafod materion, fel defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu ffyrdd iach o fyw trwy weithgareddau corfforol rheolaidd a thrwy gymryd rhan mewn digwyddiadau fel wythnos bwyta'n iach. Rhoddir cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion berfformio, er enghraifft yng nghyngerdd Nadolig yr ysgol a'r Eisteddfod. Rhoddir cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol. Er enghraifft, mae pob un o'r disgyblion yn y dosbarth derbyn, ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn dysgu chwarae'r ffidil. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o glybiau allgyrsiol diddorol, gan gynnwys dawnsio gwerin, rygbi a chwarae â blociau. Mae'r rhain yn cefnogi dysgu a medrau cymdeithasol disgyblion yn dda.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth a benodwyd yn ddiweddar weledigaeth gref a datblygol ar gyfer yr ysgol, sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar feithrin disgyblion fel eu bod yn mwynhau ac yn llwyddo mewn dysgu. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion ac mae wedi creu ethos tîm cryf ymhlith uwch arweinwyr, llywodraethwyr a staff. O ganlyniad, ceir awyrgylch pwrpasol ar draws yr ysgol sy'n canolbwyntio'n dda ar gyflwyno addysgu a dysgu o ansawdd da neu well.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth newydd wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatblygu cwricwlwm arloesol tra'n cynnal safonau uchel mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r pennaeth wedi rhannu rolau a chyfrifoldebau â staff yn llwyddiannus. Mae'r arweinyddiaeth hon yn effeithiol o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae timau dysgu a hyfforddiant staff yn canolbwyntio'n briodol ar gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu disgyblion.

Mae arweinwyr yr ysgol yn rhoi trefniadau rheoli perfformiad effeithiol ar waith. Maent yn mynd i'r afael â thanberfformio yn drylwyr trwy gymorth, adborth a her deilwredig. Maent yn rhoi cyfleoedd priodol i staff fyfyrio ar eu harfer eu hunain a datblygu eu medrau arwain. Mae staff yn awyddus i ddysgu ac maent yn fodlon derbyn syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio. O ganlyniad, ceir synnwyr ar y cyd o gyfeiriad ac mae profiadau dysgu disgyblion yn parhau i fod yn newydd ac ysgogol.

Mae arweinwyr wedi datblygu eu defnydd o systemau electronig yn dda i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn effeithlon o ddydd i ddydd. Er enghraifft, mae defnyddio dogfennau ar-lein ar y cyd yn galluogi pob un o'r staff i gydweithio ar bolisïau a gweithdrefnau newydd, fel y rheiny sy'n olrhain cynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yn monitro safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn dda. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys adolygiadau rheolaidd o waith disgyblion, arsylwadau gwersi a safbwyntiau

disgyblion a rhieni. O ganlyniad, mae gan uwch arweinwyr ddarlun cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae disgyblion yn cyfrannu'n llwyddiannus at wella bywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae cyngor yr ysgol wedi cyflwyno clwb papurau newydd ac mae disgyblion sy'n mynychu'r clwb hwn yn datblygu eu dealltwriaeth o fedrau'r cyfryngau, gan gynnwys sut i gynnal cyfweliadau effeithiol.

Mae arweinwyr wedi datblygu cysylltiadau effeithiol rhwng gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella. Mae cyflwyno ffordd fwy systematig o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am gynnydd disgyblion wedi lleihau'r baich gwaith i athrawon ac wedi cryfhau'r cymorth ar gyfer disgyblion targedig, er enghraifft trwy sesiynau darllen dan arweiniad. Mae'r rhan fwyaf o'r targedau yng nghynllun gwella'r ysgol yn glir gyda graddfeydd amser clir, meini prawf llwyddiant ac adnoddau priodol. Fodd bynnag, nid yw'r flaenoriaeth i ddatblygu darpariaeth y cyfnod sylfaen yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella agweddau penodol ar arfer.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r ysgol uwchradd leol ar lefelau athro a llywodraethwr. Mae hyn yn sicrhau trefniadau pontio pwrpasol a threfnus. Mae athrawon wedi cyfrannu'n effeithiol at gyhoeddi adnoddau i gefnogi dealltwriaeth ar y cyd o addysgu llythrennedd ar draws ysgolion. Mae cynorthwywyr addysgu yn elwa'n dda ar hyfforddiant sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol, fel gwella lles cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i staff rannu arfer dda wedi'u datblygu'n ddigonol, er enghraifft o ran rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 ac egwyddorion y cyfnod sylfaen.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac maent yn wybodus am ei pherfformiad o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o lywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn ymgymryd ag ystod bwrpasol o weithgareddau; er enghraifft, maent yn mynychu cyfarfodydd y cyngor ysgol ac yn siarad â dysgwyr, rhieni a staff. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i herio'r ysgol am ei pherfformiad ac mae aelodau'n defnyddio eu harbenigedd i ddarparu cymorth ychwanegol, er enghraifft yn y ddarpariaeth ar gyfer gwyddoniaeth.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau'r ysgol. Mae athrawon wedi dechrau defnyddio'r amgylchedd awyr agored yn fwy helaeth yn unol â blaenoriaethau'r ysgol. Mae uwch arweinwyr yr ysgol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn dda ac mae lefelau staffio yn briodol. Mae staff yn defnyddio'r cyllid a godwyd gan rieni yn effeithiol i brynu offer ac adnoddau ar gyfer disgyblion; er enghraifft, prynwyd gliniaduron a ffidlau ychwanegol yn ddiweddar.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2018